**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**MEHEFIN 28AIN 2023 AM 7:30Y.H**
**CYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN BRO CERNYW**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Sara Thomas (ST), Einir Williams (EW), Gwydion JONES (GJ), & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Austin Roberts (AR)

Cydymdeimlodd y Cadeirydd gyda theulu Rhydeden yn eu colled sydyn a dwys o golli Ifor Edwards ac ategwyd hynny gan bawb yn bresennol.

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

EW - 6.2

## 3 COFNODION MAI 25AIN 2023 I'W GWIRIO

Cofnodion Ebrill - Cynigwyd yn gywir gan JR ac eilwyd gan MD.
Cofnodion Mai - Cynigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan MGD .

## 4 MATERION YN CODI

CWG - HSBC dal ar y gweill, pawb angen arwyddo ac wedyn bydd yn symud ymlaen i'r cam nesaf. Wedi cofrestru gyda'r ICO ac wedi adnewyddu yswiriant gyda BHIB. Wedi rhewi'r cyfri Dŵr Cymru dros dro ac maent yn hapus i gael eu talu pan fydd y bancio ar lein wedi ei sortio. O ran yr awdit blynyddol mae CWG wedi argraffu'r cofnodion ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan a mynd a nhw i Iona a DR wedi mynd a'r anfonebau a'r cyfrifon ac mae Iona wedi dweud y gwnaiff hi'r holl waith. CWG wedi e-bostio nifer o weithiau i weld sut mae pethau'n mynd efo nhw ond heb gael dim yn ôl. Fe gysylltodd Iona yn ôl ar ddiwrnod y cyfarfod i ddweud y byddai wedi eu cwblhau erbyn dydd Gwener (sef y dyddiad cau).

Mae sgipiau wedi eu harchebu i Bandy Tudur ar Orffennaf 25ain a Gwytherin ar Orffennaf 27ain gyda negeseuon wedi mynd i'r Gadlas a phosteri ar yr hysbysfyrddau. Mae Arfon yn edrych mewn i sut i gael gwybod faint o ymweliadau sydd i wefan y Cyngor Cymuned.

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1** Cais Rhif 0/50787 *Bridge Inn*, Llangernyw

**5.2** Cais Rhif 0/50788 *Bridge Inn*, Llangernyw

Cafodd y ddau gais uchod eu trafod ar yr un pryd. EW yn nodi ei fod yn dŷ mawr a DR o'r farn na ddylai gyffwrdd y llwybr cyhoeddus. Pawb yn cymeradwyo.

**5.3** Cais Rhif 0/50798 Tan Y Ffordd, Ffordd Abergele, Llanrwst LL26 0NT
MGD yn dweud ei fod yn gais trylwyr ond ei fod wedi cael sylwadau lleol o ran poeni am lif yr afon, pryder o ran sŵn a rheolaeth cŵn gan na fydd neb ar y safle drwy'r amser. MD yn nodi fod y cais am 12 mis o'r flwyddyn ond y byddai'n well cyfyngu hyn i 9 mis. Pawb yn cymeradwyo gyda'r sylwadau.

**5.4** Cais Rhif: 0/50848 Tŷ'r Felin Isa, Tyn Ddol, Gwytherin LL22 8YD
DR wedi cael sylwad gan aelod o'r cyhoedd oedd yn pryderu yn arw gan fod lle parcio reit wrth ymyl eu lle ac y gallai'r datblygiad a phan fyddai ceir wedi parcio yno yna ni fyddai yn bosib pasio. EW yn dweud nad ydynt yn weledol ond angen tynnu sylw at y ffaith fod dal angen sicrhau mynediad. MGD yn dweud ei fod wedi trafod o'r blaen felly ei sylwadau yn parhau i

sefyll. DR yn dweud fod rhaid i ganiatâd cynllunio fod yn addas ar gyfer cadair olwyn. DR yn pleidleisio yn erbyn a phawb arall o blaid.

## 6 MATERION CYNGOR

**6.1** Rheolau Sefydlog - wedi gyrru e-bost gyda'r rhai diwygiedig i bawb eu darllen. MGD yn dweud y dylai iaith cyfarfodydd gael eu hychwanegu i'r Rheolau Sefydlog. [ST yn cyrraedd]. AV yn dweud fod y Rheolau Sefydlog diwethaf wedi eu mabwysiadu ar 22.7.2020. Penderfynwyd cael criw bach at ei gilydd i'w trafod. CR, EW, JR, MD a ST yn fodlon cwrdd nos Fercher 12.7.23. (DR am fod yn gwneud yr un ariannol).

**6.2** Sedd Wag - [EW yn gadael yr ystafell] CWG wedi rhoi posteri yn y 3 pentref ac ar y wefan - un cais wedi dod i law. Cais cryf iawn, pawb yn cytuno gyda phenodi Mr Euros Williams fel Cynghorydd newydd. CWG i gysylltu gydag ef i'w longyfarch ac i'w wahodd i'r pwyllgor nesaf ar 19.7.23. [EW yn dychwelyd i'r cyfarfod].

**6.3** Lleoedd lleol ar gyfer natur - pecynnau ar gael am ddim. Rhai syniadau o ran ardaloedd i'w datblygu oedd:
EW - creu cynefin i beillwyr yng Ngwytherin.
DR - cae o gwmpas y cae bob tywydd
JR - teiars a thŷ gwydr yr ysgol.
DR - tai adar.

**6.4** Model Brotocol Datrysiadau Lleol - wedi eu gyrru i bawb. Penderfynwyd i'w trafod yr un noson a'r Rheolau Sefydlog.

## 7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

**7.1** Mae cais Pen Bont Sylltu wedi ei gadarnhau, yn ogystal ag adeilad amaethyddol ym Mryn Hafod (gydag amodau) .
**7.2**. Y bore 'ma fues o gwmpas Pandy a Gwytherin yng nghwmni Emyr Jones o adran briffyrdd y Cyngor Sir .
**7.2a**. Cae chwarae'r Pandy lawr i gael ei dorri wythnos nesaf .
**7.2b**. Bont Pandy i gael archwiliad arall mis Gorffennaf.
**7.2c**. Problem dŵr yn llifo lawr yr allt tuag at y bont, y cyngor i roi draen newydd ar waelod yr allt pan fydd adnoddau'n caniatâu.
**7.3a**. Derbyniais gwyn gan berchnogion Hafod Bach ynglŷn â dŵr yn gorlifo o'r ffordd i'r Tŷ, er fy mod wedi hysbysu'r perchnogion y buasem yn galw'r bore 'ma, doedd neb adref. Ond fel mae'n digwydd, mae'r cyngor wrthi'n gosod draen newydd rhyw 200 m i fynnu'r ffordd, felly gofynnodd Emyr i'r gweithwyr agor y ffos gyferbyn â Hafod bach.
**7.3b**. Y gwair yn y cae chware angen ei dorri ond adran amgylchedd y cyngor yn gwrthwynebu. Emyr am ofyn am gyfaddawd a thorri'r cae ond gadael o amgylch y nant a'r clawdd yn wyllt .
**7.3c**. Y cyngor am osod pibelli draenio newydd o dan y ffordd rhwng y pentre' a chyffordd Llwyn Saint. Y gwaith i gychwyn dechrau mis Awst ac i'w gwblhau cyn y Sioe. Y sir i ymgynghori â'r ffermydd rhwng y pentre' a phen draw'r cwm cyn cychwyn y gwaith.

Yn olaf, fe gaewyd y ffordd i mewn i'r pentre' o dan orchymyn brys, drwy gais gan Dŵr Cymru oherwydd bod yna bibell wedi byrstio.

## 8 MATERION ARIANNOL

Parhau i aros am TAW i ddod i mewn a hefyd yr arian llwybrau.

## 9 GOHEBIAETH

**9.1** Llythyr gan D.Emrys Williams parthed y diweddar T.Hugh William - pawb yn cytuno i gyfrannu. CWG i ofyn i Emrys faint fydd y gost a'r pwyllgor i benderfynu ar swm i'w gyfrannu'r mis nesaf.

**9.2** E-bost gan Carys Thomas ynglŷn â choed yn Rheithordy Gwytherin - y cynghorwyr yn sôn nad oes dim hawl ymyrryd ond fe all y Sir. CWG i ofyn i Austin pa adran i gysylltu ag ef.

**9.3** Neges o'r wefan yn gofyn am dorri gwair ym mharc Gwytherin - CWG i fynd ar ôl Austin.

**9.4** Cynllun Cymru'r dyfodol 2040 - Hysbysiad fod cyfarfod safle tyrbeini diwydiannol Moelfre ar Orffennaf 13eg 2023 yn neuadd bentref Betws yn Rhos am 7.30 y.h.

**9.5** Hysbysiad bod Cell Conwy Wledig o Gymdeithas yr Iaith yn cynnal Cyfarfod Agored yn y Ganolfan Deulu Llanrwst Nos Fawrth Gorffennaf 4ydd am 7.30yh. Bydd Howard Hughes o'r Cylch Iaith yn dod i siarad am effaith Tai haf ar ein cymunedau, y Cynghorydd Nia Clwyd yn siarad am yr effaith yn lleol, a Walis George o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn dod i egluro pwysigrwydd pwyso am Ddeddf Eiddo. Ar ddiwedd y cyfarfod bydd cyfle ichwi holi'r siaradwyr. Mae'r cyfarfod yn agored i bawb, ac mae croeso i unrhyw un gysylltu gyda Beryl Griffiths cyn y noson os oes gennych unrhyw gwestiwn.

**9.6** Darganfod Dyffryn Dyfodol - digwyddiad ar-lein ar 11 Gorffennaf 2023 (11:00 - 12:15), sy'n archwilio'r prosiect ymchwil a datblygu creadigol Dyffryn Dyfodol yn Nyffryn Conwy.

**9.7** Dyddiadau hyfforddiant nesaf - pawb i adael i CWG wybod os ydynt eisiau mynychu unrhyw gwrs.

**9.8** Hawl i holi 6.7.23 5.15, rhaglen 6-7, Canolfan Addysg Bro Aled, Llansannan.

**10 BILIAU**
**10.1** Canolfan Gymunedol Bro Cernyw - 8/2/23 , 22/2/23 - £10
**10.2** CWG - stampiau ac amlenni - £9.80
**10.3** CWG - costau teithio ers mis Chwefror - 48 milltir @0.45c y filltir = £21.60.
**10.4** CWG - cyflog ers 23.3.23. Cost y mis yn ôl Euros fydd £461.83 gyda CWG yn derbyn £369.63 ar ôl treth o 20%. Mi fydd angen i'r Cyngor Cymuned dalu'r dreth drosodd i HMRC bob chwarter, felly bil o £276.60 bob chwarter. Mae posib gosod debyd uniongyrchol, neu fel arall mi fydd *BrightPay Connect* yn gyrru e-bost bob chwarter i atgoffa bod angen talu.
**10.5** Archwilio Cymru - 2019-20 - £200
**10.6** Archwilio Cymru - 2020-21 - £200
**10.7** Archwilio Cymru - 2021-22 - £248
**10.8** D. Evans - torri gwair £450
**10.9** PR signs - £46.56 Siec i AV

Pawb yn cytuno i dalu'r uchod i gyd.

**11 MATERION LLEOL**
**DR** - Arwyddion 20 m.y.a wedi gorchuddio gyda thyfiant. Clawdd wrth ymyl yr ardd goffa yn tyfu allan. DR am dorri o gwmpas yr arwydd. MD yn dweud y gall adran briffyrdd y cyngor annog i dorri'r clawdd. Cŵn yng Ngwytherin yn cerdded drwy'r cae ble mae'r siglenni. Llwybr o Bont Faen am Ty'n Caeau yn beryglus.

**EW** - Dau aelod o'r cyhoedd wedi bod mewn cyswllt ynglyn a datblygiadau yn Petryal - adwy newydd yn y clawdd a bwthyn gwyliau yno. DR yn dweud ei bod wedi gofyn i Austin am sefyllfaoedd fel hyn mewn cyfarfod o'r blaen. CR yn dweud wrth EW gysylltu gydag Austin.

**JR** - Guto Owen wedi cysylltu gyda hi i ddweud fod angen gwaith ar y llwybr troed cyn y gaeaf. Lori wedi bod yn parcio lawr heibio'r toiledau ac wedi torri'r twb halen. CR yn dweud i gadw golwg i weld os yw yn parcio yno eto.

**AV** - diolch i MD am dorri o amgylch y coed yn y fynwent. Dei Evans wedi bod yno yn torri gwair a pheidio torri'r ochr dde oherwydd meillion ayyb. Gardd gerrig angen ei thorri a thacluso, y Clwb Garddio yn arfer gwneud hyn. Mae wedi gofyn i 3 person am 2 bris - Dei Evans i strimio wrth *railings* - £50, clirio i fyny a mynd oddi-yno £120. Kevin Roberts - £210, £360 am y cwbl. Wil Edwards - amcan bris - £49 am dorri popeth ond buasai angen ei glirio oddi-yno. Pawb yn cytuno ei fod angen ei wneud. MD yn cynnig Dei Evans, GJ yn eilio, pawb yn cytuno. Cynnig fod yr is-bwyllgor amgylchedd yn edrych ôl yr ardd gerrig o hyn allan. MGD yn sôn y dylid ei drafod wrth sôn am fynwentydd. Bydd y tendr torri mynwentydd yn dod i fyny yn y flwyddyn newydd a dylid ei gynnwys adeg hynny yn lle gofyn am ddyfynbrisiau eto. Angen torri o gwmpas arwyddion ffyrdd a'u glanhau. Heb glywed dim am feicio'n saff gan Darren Millar. Heb gael pris am baentio gorsaf bws yng Ngwytherin.

**CR** - Cwyn fod llawer o geir didefnydd wedi eu parcio yn Fedwen Arian, y perchennog yw rhif 10. Cafodd ambiwlans gryn drafferth troi rownd yn ddiweddar. CWG i gysylltu gydag Austin i weld beth y gellid ei wneud ac os yw'n fater i'r heddlu. Wedi cael pris gan Kevin Roberts am lwybr 43 rhwng Pentre Wern a Thy'n Caeau - gwaith cynnal a chadw £480 sydd yn fater iechyd a diogelwch, pawb yn cytuno i wneud y gwaith.

**12 CYFARFOD NESAF**

Gorffennaf 19eg 2023 yng Ngwytherin.
Cyfarfod yn dod i ben am 9:30.
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.